Natur Ar Eich Stepen Drws

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

# Canllaw i grwpiau ffosil cyffredin

Gall ffosilau ffurfio pan fydd planhigyn neu anifail sydd wedi ei gladdu am filiynau o flynyddoedd yn cael ei ddisodli gan fwynau. Defnyddiwch y canllaw hwn i ddysgu rhagor am bob math o anifail: pryd oedd yn byw, beth fyddai'n ei fwyta, a pha grŵp mawr (neu ffylwm) yr oedd yn perthyn iddo.

AMGUEDDFA CYMRU

005b






## Crinoidau

**Ffylwm:** Echinodermata
**Cynefin:** Morol
**Dyddiad:** 480 miliwn o flynyddoedd yn ôl hyd heddiw

Mae gan Grinoidau (lilis-môr) goesyn hir gyda chorff siâp cwpan ar ei ben. Mae sawl braich tebyg i dentaclau yn hidlo eu bwyd o ddŵr y môr. Mae sgerbydau crinoid yn aml yn dadelfennu wedi marw, felly dim ond adrannau bychan o'r bôn sy'n cael eu canfod. Mae anifeiliaid cyflawn yn gallu bod hyd at fetr o daldra.




## Ichthyosoriaid

Wedi darfod

**Ffylwm:** Vertebrata (Reptilia)
**Cynefin:** Morol
**Dyddiad:** 250 - 90 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Roedd ichthyosoriaid yn ysglyfaethwyr gweithgar yn y môr tra bod deinosoriaid yn byw ar y tir. Roedden nhw'n defnyddio'u cynffon a'u padlau i nofio, ac roedd ganddynt lygaid enfawr. Fel arfer dim ond dannedd neu esgyrn sengl sy'n cael eu canfod mewn ffosilau. Gallai anifeiliaid cyflawn fod rhwng 70cm a 20 metr o hyd.



## Cwreli

**Ffylwm:** Cnidaria
**Cynefin:** Morol
**Dyddiad:** 535 miliwn o flynyddoedd yn ôl hyd heddiw

Gall cwreli naill ai fod yn unig neu'n gytrefol, ac weithiau maen nhw'n ffurfio riffiau. Maen nhw'n hidlwyr bwyd sy'n sownd wrth wely'r môr. Gall y polypau unigol sydd â chorff meddal fod rhwng 1 mm i 12 cm o hyd. Gall cytrefi dyfu i sawl metr o hyd.



## Boldroediaid

**Ffylwm:** Mollusca (Gastropoda)
**Cynefin:** Morol, dŵr croyw a'r tir
**Dyddiad:** 500 miliwn o flynyddoedd yn ôl hyd heddiw

Mae boldroediaid, neu falwod, fel arfer yn byw mewn cragen dorchog. Mae ganddynt sawl ffordd wahanol o fwydo, o bori at ysglyfaethu. Maint o lai na 1 mm i 90 cm.



## Echinoidau

**Ffylwm:** Echinodermata
**Cynefin:** Morol
**Dyddiad:** 450 miliwn o flynyddoedd yn ôl hyd heddiw

Maen nhw'n symud yn araf dros wely'r môr gan bori ar algâu. Mae gan y rhan fwyaf o rywogaethau asgwrn cefn sydd hefyd yn gallu cael eu canfod fel ffosilau. Maint o 3 i 30 cm.



## Belemnites

Wedi darfod

**Ffylwm:** Mollusca (Cephalopoda)
**Cynefin:** Morol
**Dyddiad:** 230 - 66 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Mae belemnitau siâp bwled yn ffosilau cyffredin, ond darnau mewnol solet yr anifail yn unig yw rhain, oedd yn edrych yn debyg i ystifflog. Roedden nhw'n ysglyfaethwyr oedd yn nofio, gan fwyta cramenogion a molysgiaid eraill. Maint o 3 cm i hyd at 70 cm o hyd.